Technoleg Glyfar, Gwnaethpwyd i Ofalu

Climate

Synhwyrydd Tymheredd a Lleithder

Canllaw Rhaglennu V 1.0

Mae'r Climate yn synhwyrydd tymheredd a lleithder i gyd fewn un ddyfais ddisylw.

Mi fedrith ddarganfod tymereddau uchel ag isel, tymheredd sydd yn codi yn sydyn, a lefelau lleithder uchel ag isel.
Mae'r Climate efo 8 lefel trothwy i bob opsiwn, ag yn hawdd eu rhaglennu efo'r botwm.
Mae'n gallu helpu cynnal tymheredd iach yn y cartref, ac mae'r opsiwn i ddarganfod lleithder yn helpu i bobl yn byw efo anhwylderau fel COPD i fonitro'r amgylchedd.

Canllaw Rhaglennu V 1.0



Cyflwyniad

Mae'r Climate yn synhwyrydd tymheredd a lleithder i gyd fewn un ddyfais ddisylw.

Mi fedrith ddarganfod tymereddau uchel ag isel, tymheredd sydd yn codi yn sydyn, a lefelau lleithder uchel ag isel. Mae'r Climate efo 8 lefel trothwy i bob opsiwn, ag yn hawdd eu rhaglennu efo'r botwm. Mae'n monitro ac yn cynnal tymheredd iach yn y cartref, ac mae'r opsiwn i ddarganfod lleithder yn helpu i bobl yn byw efo anhwylderau fel COPD i fonitro'r amgylchedd.

Sut mae'r Climate yn gweithio

Mae'r Climate yn darganfod tymheredd uchel, isel a thymheredd sydd yn codi yn sydyn. Mae hefyd yn darganfod lefelau uchel ag isel o leithder.

Mae'r ddyfais yn cymryd darlleniad ar gyfer pob nodwedd pob munud. Os fydd tymheredd uchel neu leithder isel neu uchel yn mynd dros y trothwy, mi fydd y Climate yn gyrru neges radio ar unwaith. I'r tymheredd isel, mi fydd yna oediad o 5 munud nes bod neges radio yn cael eu gyrru.

Mae'r nodwedd tymheredd yn codi yn seiliedig ar gylch 3 munud. Os mae'r tymheredd yn codi i'r maint sydd wedi eu gosod (2 - 9°C) o fewn 3 munud, mi fydd neges radio yn cael eu gyrru.

Mae'r botwm a'r LED yn cael eu defnyddio i droi'r Climate ymlaen ag i ffwrdd, ag i raglennu'r gosodiadau. Pan mae'r Climate yn cael eu defnyddio, mae'n bosib cloi'r botwm i sicrhau fod y gosodiadau sydd wedi cael eu rhaglennu ddim yn cael eu newid mewn camgymeriad. Mae yna fotwm profi cuddiedig i alluogi pari yn hawdd efo dyfais arall.

Gosod

Mi ellir gosod y Climate unrhyw le yn y cartref, gan ystyried y canlynol:

- I osgoi larymau ffug, dylai osod i ffwrdd o golau'r haul, drysau, ffenestri a ffynonellau eraill o awyru
- Nid yw'r Climate yn gwrthsefyll dŵr felly ceisiwch osgoi cysylltiad efo dŵr, neu ardaloedd efo cyddwyso gormodol
- Mi ellir eu gosod ar unrhyw uchder, ond argymhellir rhwng 1m-1.5m o'r llawr i ran fwyaf o osodiadau
- Mae yna dau opsiwn gosod ar gael - opsiwn gludiog a sgriw

Darllenwch y cyfarwyddiadau yn y canllaw yma cyn gosod y Climate.

Dilynwch y cyfarwyddiadau isod i droi'r Climate ymlaen/i ffwrdd, i gloi/datgloi'r botwm ag i raglennu.
Pwysig: Pan fydd yn gwasgu'r botwm sawl gwaith, sicrhewch fod fflach o'r LED yn dilyn pob gwasg o'r botwm.

Troi'r Climate Ymlaen

1. I droi'r Climate ymlaen, pwyswch a dal lawr y botwm am 10 eiliad tan fydd y LED wedi mynd i ffwrdd.
2. Rhyddhau'r botwm. Mi fydd y LED yn fflachio yn wyrdd pedwar gwaith ac mi fydd y Climate yn dod ymlaen.
3. I wirio fod o nawr ymlaen, pwyswch y botwm dwywaith. Mi fydd y LED yn fflachio yn goch am amser byr pan mae'r botwm yn cael eu pwyso ac wedyn yn goleuo'n goch am ddau eiliad i ddangos eu bod ymlaen.

Troi'r Climate i Ffwrdd

1. I droi'r Climate i ffwrdd, pwyswch a dal lawr y botwm am 10 eiliad tan fydd y LED ambr yn mynd i ffwrdd.
2. Rhyddhau'r botwm. Mi fydd y LED yn fflachio'n goch pedwar gwaith ac mi fydd y Climate yn troi i ffwrdd.
3. I wirio fod o nawr i ffwrdd, pwysych y botwm dwywaith. Mi fydd y LED yn fflachio yn goch am amser byr pan mae'r botwm yn cael eu pwyso ond fydd dim mwy fflachio yn digwydd.

Datgloi'r Botwm

Pwysig: Mae rhaid i'r Climate fod yn ymlaen a'r botwm wedi eu datgloi i gael fewn i'r ddewislen rhaglennu.

1. Pwyswch y botwm dwywaith. Pan mae'r LED wedi eu goleuo yn goch, pwyswch a dal lawr y botwm am bum eiliad nes bod y LED ambr yn mynd i ffwrdd.
2. Rhyddhau'r botwm. Mi fydd y LED yn fflachio yn wyrdd 3 gwaith i ddangos fod y botwm nawr wedi datgloi.
3. I wirio fod o nawr wedi datgloi, pwyswch y botwm dwywaith - mi fydd y LED yn fflachio yn goch am amser byr pan mae'r botwm yn cael eu pwyso ag mi fydd yn goleuo yn wyrdd am ddau eiliad i ddangos fod y botwm nawr wedi eu datgloi. Mi ellir nawr rhaglennu'r Climate.

Cloi'r Botwm

Mae'n bosib cloi'r botwm i osgoi defnyddwyr cael mynediad i'r ddewislen rhaglennu mewn camgymeriad.

1. Pwyswch y botwm dwywaith. Pan mae'r LED yn goleuo'n wyrdd, pwyswch a dal lawr y botwm am bedwar eiliad nes bod y LED ambr yn mynd i ffwrdd.
2. Rhyddhau'r botwm. Mi fydd y LED yn fflachio yn goch 3 gwaith i ddangos fod y botwm nawr wedi cloi.
3. I wirio fod o nawr wedi cloi, pwyswch y botwm dwywaith - mi fydd y LED goch yn fflachio am amser byr pan mae'r botwm yn cael eu pwyso wedyn yn goleuo'n goch am ddau eiliad i ddangos fod y botwm nawr wedi cloi. Mae'n nawr bosib i osod y Climate.

Rhaglennu Trothwy Tymheredd/Lleithder

Sicrhewch fod y Climate wedi troi ymlaen a'r botwm wedi eu datgloi. I raglennu, darllenwch y cyfeiriadau isod.

Ewch i'r ddewislen rhaglennu ar gyfer yr opsiwn yr ydych eisiau gosod. I gyd sydd angen wneud yw pwyso a rhyddhau'r botwm 4-8 gwaith (tra sicrhau fod y LED goch yn goleuo gyda phob gwasg) i gyfateb efo'r opsiynau isod:

- 4 Gwasg i Dymheredd Uchel
- 5 Gwasg i Dymheredd Isel
- 6 Gwasg i Dymheredd sydd yn Codi
- 7 Gwasg i Leithder Uchel
- 8 Gwasg i Leithder Isel

Number of Presses/ Flashes	1	2	3	4	5	6	7	(Default) 8	Option
	Temperature Threshold Levels								
4	22°C	24°C	32°C	34°C	36°C	38°C	40°C	42°C	High Temperature
5	16°C	14°C	12°C	10°C	8°C	6°C	4°C	2°C	Low Temperature
6	2°C	3°C	4°C	5°C	6°C	7°C	8°C	9°C	Rate of Rise
	Humidity Threshold Levels								
7	60%	65%	70%	75%	80%	85%	90%	95%	High Humidity
8	40%	35%	30%	25%	20%	15%	10%	5%	Low Humidity

1. Mi fydd y LED wyrdd yn fflachio yn sydyn i ddangos eich bod yn mynd i mewn i'r ddewislen rhaglennu.
2. Mi fydd y LED ambr yn fflachio nifer o weithiau i ddangos y lefel trothwy presennol (os nad yw hyn yn digwydd ac mae fflachio sydyn coch yn digwydd, mae'r opsiwn yma wedi eu hanalluogi. Ewch i'r adran 'Galluogi Opsiynau Tymheredd/Lleithder' ar dudalen 4).
3. Mi fydd y LED wyrdd yn goleuo am 5 eiliad. Mae hyn yn wahoddiad i fewnbynnu gosodiad newydd. Pwyswch y botwm 1-8 waith i fewnbynnu'r lefel trothwy newydd (gweler y tabl uchod). e.e. Pwywch y botwm unwaith am lefel 1, dwywaith am lefel 2 a.y.b. Mae'r LED yn fflachio bob tro mae'r botwm yn cael eu gwasgu. **Nodyn:** Os na fod y botwm yn cael eu pwyso tra mae'r LED gwrdd wedi goleuo, mi fydd y LED goch yn fflachio yn sydyn ac mi fydd y Climate yn gadael y ddewislen rhaglennu, ac mi fydd y gosodiadau cynt yn aros.
4. Yn fyr ar ôl gwasgiad y botwm diwethaf, mi fydd y LED ambr yn fflachio i gadarnhau'r lefel trothwy newydd.
5. Mi fydd y LED goch wedyn yn fflachio yn sydyn ac mi fydd yr Climate yn gadael y ddewislen rhaglennu.
6. Ailadrodd camau 1-6 os mae fwy o raglennu eu hangen. Cofiwch i gloi'r botwm pan yr ydych wedi darfod.

Nodyn 1: Os mae'r botwm yn cael eu pwyso mwy na 8 gwaith yn gam 4, mi fydd y LED goch yn goleuo am 2 eiliad, ac mi fydd y Climate yn gadael y ddewislen rhaglennu ag mi fydd y gosodiadau cynt yn aros.
Nodyn 2: Unwaith mae'r rhaglennu wedi eu cwblhau, mae'n arfer da i fynd trwy bob opsiwn eto i sicrhau fod y gosodiadau cywir wedi eu rhaglennu.
Nodyn 3: Mae lefelau rhagosodedig ar bob opsiwn wedi ei setio i rif 8.

Gwirio Statws y Climate

I wirio statws y Climate, pwyswch y botwm dwywaith:

- Os na fydd unrhyw LED solet yn dangos, mae'r Climate i ffwrdd
- Os mae LED solet coch yn dangos, mae'r Climate ymlaen a'r botwm wedi cloi
- Os mae LED solet gwyrdd yn dangos, mae'r Climate ymlaen a'r botwm wedi datgloi

Nodyn: I gael mynediad i'r opsiynau isod, sicrhewch fod y Climate ymlaen a'r botwm wedi datgloi.

Analluogi Opsiynau Tymheredd/Lleithder

1. Pwyswch y botwm 4-8 waith i gyfateb efo rhif yr opsiwn yr ydych eisiau analluogi.
2. Gadewch i'r Climate fynd trwy'r ddewislen rhaglennu.
3. Yn ddiwedd y ddewislen, tra mae'r LED goch yn fflachio'n sydyn, pwyswch a dal lawr y botwm. Mi fydd y LED ambr yn goleuo. Rhyddhau'r botwm pan fydd y LED ambr yn mynd i ffwrdd ar ôl 2 eiliad.
4. Mi fydd y LED goch yn goleuo am 2 eiliad i gadarnhau fod yr opsiwn nawr wedi eu hanalluogi.
5. Mae'r opsiwn nawr wedi eu hanalluogi. I wirio hyn, pwyswch y botwm 4-8 waith eto, mi fydd y LED yn fflachio'n sydyn yn wyrdd, wedyn coch syth wedyn.

Galluogi Opsiynau Tymheredd/Lleithder

Pwysig: Nodwch na dim ond os fydd yr opsiwn wedi eu hanalluogi mae hyn yn bosib.

1. Pwyswch y botwm 4-8 waith i gyfateb efo rhif yr opsiwn yr ydych eisiau galluogi.
2. Pan mae'r LED yn fflachio yn sydyn, pwyswch a dal lawr y botwm. Mi fydd y LED ambr yn goleuo. Rhyddhau'r botwm pan fydd y LED ambr yn mynd i ffwrdd ar ôl 2 eiliad.
3. Mi fydd y LED wyrdd yn goleuo am 2 eiliad i gadarnhau fod yr opsiwn wedi eu galluogi.
4. Mae'r opsiwn nawr wedi eu galluogi. I wirio hyn, pwyswch y botwm 4-8 waith eto, mi fydd y LED yn fflachio yn wyrdd yn sydyn ac wedyn fynd i'r ddewislen rhaglennu fel esbonnir ar dudalen 3 (cam 3 ymlaen).

Gyrru Neges Radio

Mae yna dwy ffordd i yrru neges radio:

Dull 1

1. Mi ellir defnyddio'r dull yma unrhyw adeg - pan fydd yr Climate ymlaen, i ffwrdd, a'r botwm wedi cloi neu ddatgloi.
2. Wrth ddefnyddio pin diogelwch, neu offer tebyg, pwyswch y botwm profi **(gweler y diagram ar dudalen 2)** 4-8 waith i gyfateb efo rhif yr opsiwn yr ydych eisiau gyrru. Sicrhewch fod y LED goch yn fflachio efo pob gwasgiad.
3. Yn fuan ar ôl y gwasgiad diwethaf, mi fydd y LED wyrdd yn goleuo a fydd y Climate yn gyrru neges radio.

Dull 2

1. Mi fydd y dull yma ddim ond yn gweithio pan fydd yr Climate wedi troi ymlaen ac mae'r botwm wedi eu datgloi (**gweler cyfarwyddiadau ar dudalen 3).**
2. Pwyswch y botwm 4-8 i waith i gyfateb efo rhif yr opsiwn yr ydych eisiau gyrru.
3. Tra mae'r LED yn fflachio'n wyrdd yn sydyn, pwyswch a dal lawr y botwm. Mi fydd y LED ambr yn goleuo. Rhyddhau'r botwm pan fydd y LED ambr yn mynd i ffwrdd ar ôl 2 eiliad. Mi fydd y neges radio yn cael eu gyrru pan mae'r botwm yn cael eu rhyddhau.

Nodyn: Darllenwch y nodiadau isod cyn aseinio'r Climate.

Aseinio'r Climate i Notifier, Lifeline neu system Teleofal arall

1. Rhaglennu'r Climate fel esbonnir ar dudalen 3 a 4.
2. Paratoi'r Notifier / Lifeline / system arall i'r modd cofrestru.
3. Gyrru neges radio yn defnyddio'r cyfarwyddiadau uchod (darllenwch y nodiadau isod hefyd).
4. Mi ddylai'r Notifier / Lifeline / system arall cydnabod y ddyfais newydd.

Nodyn 1: Yn debyg i ddyfeisiau arall, mae'r opsiynau tymheredd (4-6) wedi ei aseinio i ddyfais Tunstall efo'i gilydd, e.e. Mae aseinio opsiwn 4 hefyd yn aseinio opsiynau tymheredd 5 a 6, ag i'r gwrthwyneb. Mae'r un peth yn berthnasol i'r opsiynau lleithder, e.e. mae aseinio opsiwn 7 hefyd yn aseinio opsiwn lleithder 8, ag i'r gwrthwyneb.
Nodyn 2: Mae'r ID i'r opsiynau lleithder yn 200 digid mwy na'r ID yr opsiynau tymheredd, e.e. mae ID o 123456 i'r opsiynau tymheredd yn feddwl fydd yr ID ar gyfer y lleithder yn 123656.
Nodyn 3: Mi fydd yr opsiynau tymheredd yn aseinio fel ROM#4 (Event 3 (high) a Event 1 (low)). Gan na fod yna opsiwn lleithder ar feddalwedd ARC, mae fel arfer yn bosib newid hyn ar yr ARC i ddangos 'Humidity High' a 'Humidity Low'.

Ailosod i Osodiadau Ffatri

Os mae'r Climate wedi cael eu defnyddio o blaen, mae'n ymarfer da i osod yr uned yn ôl i osodiadau ffatri.

1. Sicrhewch fod yr Climate ymlaen (pwyswch y botwm dwywaith, os mae LED wyrdd neu goch yn goleuo, mae'r Climate ymlaen).
2. Pwyswch y botwm 15 waith. Mi fydd y LED ambr yn goleuo am 2 eiliad yn fuan ar ôl y 15fed gwasg
3. Tra mae'r LED ambr wedi goleuo, pwyswch a dal lawr y botwm am 10 eiliad tan fydd y LED yn fflachio yn wyrdd a coch yn sydyn, wedyn rhyddhau'r botwm.
4. Mae nawr wedi eu osod i osodiadau ffatri (gweler tabl ar dudalen 3), a fydd yn troi i ffwrdd. Cofiwch droi ymlaen os fydd angen.

Canllaw Cyflym Climate

Pan yr ydych wedi darllen y canllaw llawn ag yn gyfarwydd efo'r Climate mae'r dudalen yma efo pob dim yr ydych eu hangen.

Gwirio Statws y Climate

I wirio statws y Climate, pwyswch y botwm dwywaith:

- Os nad oes LED solet, mae'r Climate i ffwrdd.
- Os fydd LED goch solet, mae'r Climate ymlaen a'r botwm wedi cloi.
- Os fydd LED wyrdd solet, mae'r Climate ymlaen a'r botwm wedi datgloi.

Troi Ymlaen

1. Pwyswch y botwm am 10 eiliad tan fydd y LED ambr yn mynd i ffwrdd.
2. Rhyddhau'r botwm. Mi fydd y LED yn fflachio yn wyrdd pedwar gwaith ac mi fydd y Climate yn troi ymlaen.
3. I wirio ei fod ymlaen, pwyswch y botwm dwywaith. Mi fydd y LED yn fflachio yn goch am amser byr pan fydd y botwm yn cael eu gwasgu wedyn yn goleuo'n goch am ddau eiliad i ddangos ei fod ymlaen.

Troi i Ffwrdd

1. Pwyswch a dal lawr y botwm am 10 eiliad tan fydd y LED ambr yn mynd i ffwrdd.
2. Rhyddhau'r botwm. Mi fydd y LED yn fflachio pedwar gwaith a fydd y Climate yn mynd i ffwrdd.
3. I wirio ei fod i ffwrdd, pwyswch y botwm dwywaith. Mi fydd y LED goch yn fflachio am amser byr pan fydd yn pwyso'r botwm ond ni fydd unrhyw fflach arall.

Datgloi'r Botwm

1. Pwyswch y botwm dwywaith. Pan fydd y LED goch yn goleuo, pwyswch a dal y botwm am pum eiliad tan fydd y LED ambr yn mynd i ffwrdd.
2. Rhyddhau'r botwm. Mi fydd y LED yn fflachio'n wyrdd 3 gwaith i ddangos fod y botwm rŵan wedi datgloi.
3. I wirio fod o wedi datgloi, pwyswch y botwm dwywaith - mi fydd y LED goch yn fflachio am amser byr pan fydd y botwm yn cael eu gwasgu wedyn goleuo'n wyrdd am ddau eiliad i ddangos fod y botwm wedi datgloi. Mae'n nawr bosib i raglennu'r Climate.

Cloi'r Botwm

1. Pwyswch y botwm dwywaith. Pan fydd y LED yn goleuo'n wyrdd, pwyswch a dal lawr y botwm am pum eiliad tan fydd y LED ambr yn mynd i ffwrdd.
2. Rhyddhau'r botwm. Mi fydd y LED yn fflachio'n goch 3 gwaith i ddangos fod y botwm nawr wedi cloi.
3. I wirio fod o wedi cloi, pwyswch y botwm dwywaith - mi fydd y LED goch yn fflachio am amser byr pan fydd y botwm yn cael eu gwasgu ac wedyn goleuo'n goch am ddau eiliad i ddangos fod y botwm wedi eu cloi.

Rhaglennu Trothwy Tymheredd/Lleithder

1. Pwyswch y botwm 4-8 gwaith i fynd i'r ddewislen rhaglennu ar gyfer yr opsiwn yr ydych eisiau gosod.
2. Mi fydd y LED wyrdd yn fflachio yn sydyn i ddangos fod chi'n mynd i mewn i'r ddewislen rhaglennu.
3. Mi fydd y LED ambr yn fflachio nifer o weithiau i ddangos y lefel trothwy presennol.
4. Mi fydd y LED wyrdd yn goleuo am 5 eiliad. Pwyswch y botwm 1-8 gwaith i fewnbynnu'r lefel trothwy newydd.
5. Yn fuan ar ôl y gwasgiad diwethaf, mi fydd y LED ambr yn fflachio i gadarnhau'r lefel trothwy newydd.
6. Mi fydd y LED goch wedyn yn fflachio yn sydyn a fydd y Climate yn gadael y ddewislen rhaglennu.
7. Ailadrodd camau 1-6 os fydd mwy o raglennu eu hangen.

Analluogi Opsiwn

1. Pwyswch y botwm 4-8 waith i gyfateb efo rhif yr opsiwn yr ydych eisiau analluogi.
2. Gadewch i'r Climate fynd trwy'r ddewislen rhaglennu.
   Ar ddiwedd y ddewislen, tra mae'r LED goch yn fflachio'n sydyn, pwyswch a dal lawr y botwm. Rhyddhau'r botwm pan fydd y LED ambr wedi mynd i ffwrdd ar ôl 2 eiliad.
3. Mi fydd y LED yn goleuo'n goch i ddangos fod yr opsiwn nawr wedi analluogi.

Galluogi Opsiwn

1. Pwyswch y botwm 4-8 waith i gyfateb efo rhif yr opsiwn yr ydych eisiau alluogi.
2. Tra mae'r LED goch yn fflachio'n sydyn, pwyswch a dal lawr y botwm. Mi fydd y LED ambr yn mynd i ffwrdd ar ôl 2 eiliad.
3. Mi fydd y LED yn goleuo'n wyrdd i ddangos fod yr opsiwn nawr wedi eu galluogi.

No.	1	2	3	4	5	6	7	(Def) 8	Option
	Temperature Threshold Levels								
4	22	24	32	34	36	38	40	42	High Temp °C
5	16	14	12	10	8	6	4	2	Low Temp °C
6	2	3	4	5	6	7	8	9	Temp Rise °C
	Humidity Threshold Levels								
7	60	65	70	75	80	85	90	95	High Hum %
8	40	35	30	25	20	15	10	5	Low Hum %

Gyrru Neges Radio

Dull 1

1. Pwyswch y botwm profi 4-8 waith i gyfateb efo rhif yr opsiwn yr ydych eisiau yrru. Sicrhewch fod y LED goch yn fflachio efo pob gwasg.
2. Yn fuan ar ôl y gwasg diwethaf, mi fydd y LED wyrdd yn goleuo ac mi fydd y Climate yn gyrru neges radio.

Dull 2

1. Sicrhewch fod y Climate ymlaen a bod y botwm wedi datgloi. Pwyswch y botwm 4-8 gwaith i gyfateb efo rhif yr opsiwn yr ydych eisiau gyrru.
2. Tra mae'r LED yn fflachio'n wyrdd yn sydyn, pwyswch a dal lawr y botwm. Mi fydd y LED ambr yn goleuo. Rhyddhau'r botwm pan fydd y LED ambr wedi mynd i ffwrdd ar ôl 2 eiliad. Mi fydd y neges radio yn cael eu gyrru pan fydd y botwm yn cael eu rhyddhau.

Ailosod i Osodiadau Ffatri

1. Sicrhewch fod y Climate ymlaen (pwyswch y botwm dwywaith, ddylai'r LED goleuo'n goch neu wyrdd am 2 eiliad yn fuan wedyn).
2. Pwyswch y botwm 15 waith. Mi fydd y LED ambr yn goleuo am 2 eiliad yn fuan ar ôl y 15fed gwasg.
3. Tra mae'r LED ambr wedi goleuo, pwyswch a dal lawr y botwm am 10 eiliad tan fydd yn fflachio'n goch/gwyrdd y sydyn, wedyn rhyddhau'r botwm.
4. Mae'r Climate nawr wedi eu hailosod i osodiadau ffatri a fydd yn troi i ffwrdd. Cofiwch droi'r Climate ymlaen os fydd angen.

Manylebau

Amledd Gweithredu	869 MHz
Maint	Opsiwn gludiog - H94 x Ll33 x D12.3mm Opsiwn sgriw - H119 x Ll34 x D16mm
Batri	Batri CR2450 Cell Ceiniog y ellir eu newid
Bywyd Batri	3 blwyddyn
Batri Isel Auto	Profi batri bob dydd
Opsiynau Gosod	Opsiwn gludiog a sgriw
Pellter Gweithio	Hyd at 600m
Tymheredd Gweithredu	-10°C i +55°C
Cydymffurfio	CE / RoHS 2 / RED
Gwarant	24 mis

Newid batri

Gyda defnydd arferol, mi ddylai'r batri para hyd at 3 mlynedd. Mae'n bosib cael fynediad i'r batri trwy ddadsgriwio'r 6 sgriw yn gefn y Climate. Dylai batri CR2450 cell ceiniog cael eu defnyddio i sicrhau'r bywyd batri mwyaf. Mae'n bwysig fod y batri yn cael eu gosod yn gywir. Nodwch y marciau polaredd.
Unwaith mae'r batri wedi eu newid, sicrhewch fod y gosodiadau rhaglennu yn gywir.

Pacio ar gyfer cludo

Rhaid i'r offer sy'n cynnwys celloedd neu fatris gael eu pacio mewn pecynnau anhyblyg cryf a rhaid eu sicrhau rhag symud o fewn y deunydd pacio allanol i atal actifadu damweiniol. Rhaid i enw a chyfeiriad yr anfonwr fod yn weladwy yn glir ar y pecyn allanol.

Datganiad Cydymffurfiaeth

Trwy hyn, mae Cair (UK) Ltd yn datgan bod y math o offer radio, Cair Climate yn cydymffurfio â Chyfarwyddeb 2014/53/EU

Diogelwch

Peidiwch â datgymalu na newid yr uned. Peidiwch ag agor y casin, oni bai am newid batri.

Gwaredu

Dylid cael gwared ar yr holl wastraff electronig yn unol â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf.

Rhaid ei waredu o fewn y llif gwastraff trydanol ac electronig a pheidio â chael gwared arno yn y llif gwastraff arferol. Mae ailgylchu cynhyrchion gwastraff trydanol yn helpu i warchod adnoddau naturiol ac atal effeithiau andwyol ar yr amgylchedd.
Cysylltwch â'ch cyflenwr os bydd angen mwy o wybodaeth arn

Cair (UK)
Hanson Lane, Halifax, West Yorkshire, HX1 4SD
T: 01422 399 155
E: sales@we-cair.com
W: www.we-cair.com